OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2008 Rhif 1648 (Cy.160)

2008 No. 1648 (W.160)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Sefydlu) 2008

The North Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2008

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)

Mae'r Gorchymyn hwn yn sefydlu Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru, ymddiriedolaeth GIG y darperir ar ei chyfer yn adran 18 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006. Mae hefyd yn darparu ar gyfer swyddogaethau'r ymddiriedolaeth yn erthygl 3. Mae'n pennu dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu yr ymddiriedolaeth yn erthygl 5.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Order)

This Order establishes the North Wales National Health Service Trust, an NHS trust provided for in section 18 of the National Health Service (Wales) Act 2006. It also provides for the functions of the trust in article 3. It specifies the operational date and accounting date of the trust in article 5.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 1648 (Cy.160)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Sefydlu) 2008

Gwnaed	*24 Mehefin 2008*
Yn dod i rym	*25 Mehefin 2008*

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 18(1) a (2) a pharagraffau 5 a 7 o Atodlen 3 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006(**1**) ac adran 25 o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993 (**2**), ar ôl cwblhau'r ymgynghoriad a ragnodwyd o dan adran 18(3) o'r Ddeddf, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn a dehongli

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru (Sefydlu) a daw i rym ar 25 Mehefin 2008.

(2) Yn y Gorchymyn hwn, onid yw'r cyd-destun yn mynnu fel arall—

y mae i "dyddiad gweithredol" yr ystyr a roddir i "*operational date*" ym mharagraff 5(5) o Atodlen 3 i'r Ddeddf;

ystyr "dyddiad sefydlu" ("*establishment date*") yw 25 Mehefin 2008;

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006;

ystyr "gwasanaethau iechyd cymunedol" ("*community health services*") yw unrhyw wasanaeth y dichon Gweinidogion Cymru ei

(**1**) 2006 p.42.

(**2**) 1993 p.38, Trosglwyddwyd swyddogaethau unrhyw Weinidog y Goron i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd erthygl 2 ac Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999. Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn arferadwy gan Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2008 No. 1648 (W.160)

NATIONAL HEALTH SERVICE, WALES

The North Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2008

Made	*24 June 2008*
Coming into force	*25 June 2008*

The Welsh Ministers in exercise of powers conferred by section 18(1) and (2) of and paragraphs 5 and 7 of Schedule 3 to the National Health Service (Wales) Act 2006(**1**), and section 25 of the Welsh Language Act 1993(**2**), after completion of the consultation prescribed under section 18(3) of the Act, hereby make the following Order:

Title, commencement and interpretation

1.—(1) The title of this Order is the North Wales National Health Service Trust (Establishment) Order 2008 and it comes into force on 25 June 2008.

(2) In this Order unless the context otherwise requires —

"the Act" ("*y Ddeddf*") means the National Health Service (Wales) Act 2006;

"community health services" ("*gwasanaethau iechyd cymunedol*") means any service which the Welsh Ministers may provide under section 3(1) of or Schedule 1 to the Act;

"establishment date" ("*dyddiad sefydlu*") means 25 June 2008;

"operational date" has the meaning assigned to it in paragraph 5(5) of Schedule 3 to the Act;

(**1**) 2006 c.42.

(**2**) 1993 c.38, Functions of any Minister of the Crown were transferred to the National Assembly for Wales by virtue of article 2, Schedule 1 to the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999. Functions of the National Assembly for Wales are exercisable by the Welsh Ministers by virtue of paragraph 30 of Schedule 11 to the Government of Wales Act 2006.

ddarparu o dan adran 3(1) o'r Ddeddf neu Atodlen 1 iddi;

ystyr "yr ymddiriedolaeth" ("*the trust*") yw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru a sefydlir gan erthygl 2 o'r Gorchymyn hwn.

"the trust" ("*yr ymddiriedolaeth*") means the North Wales National Health Service Trust established by article 2 of this Order.

Sefydlu'r ymddiriedolaeth

2. Sefydlir drwy hyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol o'r enw Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru neu the North Wales National Health Service Trust.

Establishment of the trust

2. There is hereby established a National Health Service trust which is called the North Wales National Health Service Trust or Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Gogledd Cymru.

Natur a swyddogaethau'r ymddiriedolaeth

3.—(1) Sefydlir yr ymddiriedolaeth at y dibenion a bennir yn adran 18(1) o'r Ddeddf.

(2) Swyddogaethau'r ymddiriedolaeth fydd darparu nwyddau a gwasanaethau (gan gynnwys lle mewn ysbyty a gwasanaethau iechyd cymunedol) o

(a) Ysbyty Glan Clwyd, Y Rhyl, Sir Ddinbych, LL18 5UJ;

(b) Ysbyty Wrecsam Maelor, Ffordd Croesnewydd, Wrecsam, LL13 7TD;

ac ysbytai a mangreoedd cysylltiedig.

Nature and functions of the trust

3.—(1) The trust is established for the purposes specified in section 18(1) of the Act.

(2) The trust's functions are to provide goods and services (including hospital accommodation and community health services) from

(a) Glan Clwyd Hospital, Rhyl, Denbighshire, LL18 5UJ; and

(b) Wrexham Maelor Hospital, Croesnewydd Road, Wrexham, LL13 7TD

and associated hospitals and premises.

Cyfarwyddwyr yr Ymddiriedolaeth

4.—(1) Bydd gan yr ymddiriedolaeth, yn ychwanegol at y cadeirydd, 7 cyfarwyddwyr anweithredol a 5 cyfarwyddwyr gweithredol.

(2) Gan fod rhaid ystyried fod i'r ymddiriedolaeth ymrwymiad arwyddocaol i addysgu o fewn ystyr paragraff 5(3) o Atodlen 3 i'r Ddeddf, y mae un o'r cyfarwyddwyr anweithredol i'w benodi o Brifysgol Caerdydd.

Directors of the Trust

4.—(1) The trust will have, in addition to the chairman, 7 non-executive directors and 5 executive directors.

(2) Since the trust is to be regarded as having a significant teaching commitment within the meaning of paragraph 5(3) of Schedule 3 to the Act, one of the non-executive directors is to be appointed from Cardiff University.

Dyddiad gweithredol a dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth

5.—(1) Dyddiad gweithredol yr ymddiriedolaeth fydd 1 Gorffennaf 2008.

(2) Dyddiad cyfrifyddu'r ymddiriedolaeth fydd 31 Mawrth.

Operational date and accounting date of the trust

5.—(1) The operational date of the trust shall be 1 July 2008.

(2) The accounting date of the trust shall be 31 March.

Swyddogaethau cyfyngedig cyn y dyddiad gweithredol

6. Rhwng dyddiad ei sefydlu a'i ddyddiad gweithredol y mae i'r ymddiriedolaeth y swyddogaethau canlynol—

(a) ymrwymo i gontractau'r GIG

(b) ymrwymo i gontractau eraill gan gynnwys contractau cyflogaeth; ac

Limited functions before operational date

6. Between its establishment date and its operational date the trust has the functions—

(a) of entering into NHS contracts

(b) of entering into other contracts including contracts of employment; and

(c) gwneud y fath bethau eraill ag sy'n rhesymol angenrheidiol i'w alluogi i ddechrau gweithredu'n foddhaol o'r dyddiad gweithredol ymlaen.

(c) of doing such other things as are reasonably necessary to enable it to begin to operate satisfactorily with effect from its operational date.

Edwina Hart

Y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

24 Mehefin 2008

Minister for Health and Social Services, one of the Welsh Ministers

24 June 2008

©℗ Hawlfraint y Goron 2008

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2008

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

£3.00

W333/07/08 ON